

Uned 13

Erthyliad mewn Gwartheg a Defaid

Taflen Wybodaeth

Cyflwyniad

Hyd cyfnod cario mewn gwartheg yw 275 diwrnod ac 147 diwrnod mewn defaid. Mae ychydig o ddyddiau'r naill ochr neu'r llall i hyn yn dderbyniol.

Os yw'r ffoetws yn marw'n gynnar y tu mewn i'r fam, yna mae'n debygol y bydd y ffoetws bychan yn cael ei sugno ôl i leinin y groth gan adael dim o'i ôl.

Fodd bynnag, os yw'r ffoetws yn cael ei yrru allan o'r groth cyn y cyfnod llawn, yna gelwir hyn yn erthyliad.

Achosion erthyliad mewn gwartheg a defaid

Gellir eu dosbarthu yn y ffordd ganlynol:

1. **Pathogenig** - yn cael ei achosi gan organebau sy'n achosi haint
2. **Sefyllfaol** - yn cael ei achosi gan nifer o amgylchiadau

1. Achosion Pathogenig

Mae'r pathogenau erthyly hyn yn heintus ac yn naill ai'n benodol neu'n amhenodol:

- Salmonelosis (yn enwedig *Salmonella dilyn*)
- Listeriosis
- Leptosirosis
- Erthyliad *Neospora caninwm*
- Dolur Rhydd Feirysol y Gwartheg (*BVD*)
- Rhinotracheitis Heintus y Gwartheg (*IBR*)
- Campylobacteriosis
- Erthyliad ffwngaidd/mycotig
- Erthyliad Episootig/clamydiol
- Tricomoniiasis
- Brwselosis

2. Achosion Sefyllfaol

Achosir yr erthyliadau hyn gan amrywiaeth o sefyllfaoedd:

- O achos cyffur a roddwyd gan y Milfeddyg (prostaglandinau)
- Ffrwythloni, gan feddwl nad yw'r fenyw'n feichiog
- Trawma/straen
- Twymyn uchel ac endotocsinau
- Maethol
- Genetig (camffurfiad)

Dulliau Atal a Rheoli

- Hwsmonaeth dda
- Bwydo cywir

- Rheolaeth dda â chadw cofnod manwl
- Bioddiogelwch da drwy sgrinio anifeiliaid newydd a chyfleusterau cwarantín da
- Adnabod y broblem yn gynnar ac felly atal rhagor o achosion
- Cynllunio iechyd anifeiliaid effeithiol i leihau nifer yr erthyliadau.